



Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol Prifysgol De Cymru 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023

Os bydd angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall neu os oes gennych unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r adroddiad hwn, cysylltwch â:

Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol
governance@southwales.ac.uk

Cynnwys

Adran	Cynnwys	Rhif tudalen
1	Cyflwyniad	3
2	Ein dyletswyddau cyfreithiol	3
3	Ymrwymiad Cydraddoldeb PDC	4
4	Pwy ydym ni	5
5	Sut rydym yn monitro ein cynnydd	5
6	Adnabod, Casglu a Defnyddio Gwybodaeth Berthnasol	6
7	Adroddiad Cynnydd Cydraddoldeb Strategol 2022-2023	17
8	Casgliad	18
Atodiad 1	Ymgyrchoedd a Digwyddiadau EDI	

1. Cyflwyniad

Croeso i Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol Prifysgol De Cymru (PDC) sy'n cwmpasu'r cyfnod adrodd rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu ac yn tynnu sylw at y gwaith sydd wedi'i wneud yn ystod y cyfnod hwn. Rydym wedi myfyrio ar ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n camau gweithredu drwy gynnal Archwiliad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) ym mis Ebrill 2022. Lle gwnaethom gydnabod bod angen i ni symud o ddiwylliant o gydymffurfiaeth i un sy'n ymgorffori Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant yng ngwedd y Brifysgol. Felly, mae'n werth nodi y bydd yr adroddiad hwn yn darparu diweddariad ar feysydd cynnydd allweddol yn adran 7 yn hytrach na'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun gweithredu strategol. Dechreuodd y gwaith o ailddatblygu ein Cynllun a'n Hamcanion Cydraddoldeb Strategol newydd ym mis Ionawr 2023.

Commented [R1]: Please note, I think there might be a typo here - I've translated this as 'strategic action plan' vs 'static action plan'. Diolch

Er bod grŵp Prifysgol De Cymru yn cynnwys PDC a dau is-gwmni, sef Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ac Y Coleg Merthyr Tudful. Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ac Y Coleg Merthyr Tudful yn cynhyrchu eu Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol eu hunain.

2. Ein dyletswyddau cyfreithiol

O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.
- Meithrin perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

Ac i roi sylw dyledus i hybu cydraddoldeb drwy:

- Dileu neu leihau anfanteision a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill.
- Annog pobl â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010:

Yn ogystal â'r ddyletswydd gyffredinol, mae'n rhaid i ni gyflawni dyletswyddau penodol, a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol), a Rheoliadau (Cymru) 2011.

Daeth y dyletswyddau hyn i rym yng Nghymru ar 6 Ebrill 2011 ac maent yn cynnwys:

- datblygu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol pedair blynedd;
- cynnwys ac ymgysylltu â rhanddeiliaid gan gynnwys y cyhoedd wrth ddatblygu cynlluniau, polisiâu a llunio gwasanaethau;
- cynnal asesiadau priodol o'r effaith ar gydraddoldeb;
- casglu a chyhoeddi gwybodaeth am gydraddoldeb, cyflogaeth a gwahaniaethau cyflog;
- hyrwyddo hyfforddiant sy'n seiliedig ar gydraddoldeb i staff;
- ystyried cydraddoldeb wrth brynu gwasanaethau a chytuno ar gontractau;
- cyhoeddi ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blyneddol;
- adolygu ein cynlluniau a'n hamcanion cydraddoldeb i sicrhau eu bod yn gyfredol;
- sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar y wybodaeth rydym yn ei darparu.

3. Ymrwymiad Cydraddoldeb PDC

Mae PDC yn ymrwymedig i'w thaith gydraddoldeb drwy gydweithio a chyd-gynhyrchu gyda'n cydweithwyr a'n myfyrwyr i greu mannau teg i bawb. Lle nad yw bocsys yn ein diffinio ac wrth sicrhau bod cydraddoldeb wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn ymrwymedig i greu a chynnal amgylchedd dysgu a gwaith cynhwysol, lle mae cydraddoldeb yn cael ei hybu, lle mae amrywiaeth yn cael ei werthfawrogi, mae mynediad teg at lwyddiant ac nid yw ymddygiad gwahaniaethol yn cael ei oddef.

Cawn ein hysbrydoli gan ein myfyrwyr a'n cymuned, ac rydym yn ymrwymedig i fynd i'r afael â stigma a chael gwared ar rwystrau. Byddwn yn cyflawni hyn drwy rannu ymdeimlad o berthyn a chyd-gynhyrchu fel teulu PDC.

4. Pwy ydym ni

Mae Prifysgol De Cymru (PDC) yn un o brifysgolion mwyaf cyffrous ac uchelgeisiol Prydain. Yn arloesol, ffyniannus a chynaliadwy, rydym yn gweithio i adeiladu dyfodol gwell i'n myfyrwyr, ein cymunedau a'n partneriaid yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol.

Mae PDC yn gosod ymgysylltu, cydweithio a gweithio mewn partneriaeth wrth wraidd popeth a wnawn, gan weithio ochr yn ochr â busnes, diwydiant a'r economi gymdeithasol, i fynd i'r afael ag anghenion a nodwyd a chyflawni'r canlyniadau gorau i ddysgwyr unigol a sefydliadau. Rydym yn gweithio ar y cyd â diwydiant, gan ymchwilio ac arloesi i fynd i'r afael â rhai o'r heriau byd-eang mwyaf, o ynni ac iechyd i ddiogelwch a chynaliadwyedd.

Mae PDC yn brifysgol â ffocws galwedigaethol, sy'n paratoi myfyrwyr i gefnogi diwydiannau allweddol nawr ac yn y dyfodol. Mae cyflogwyr yn gweithio'n agos gyda PDC i gyd-greu cwrwllwm sy'n cefnogi eu hanghenion yn y dyfodol. Mae hyn yn rhoi gweithlu medrus a pherthnasol iddynt y gallent ddibynnu arno, gyda nifer fawr o raddedigion yn dod o PDC a'n sefydliadau partner bob blwyddyn. Rydym yn cynhyrchu'r gweithlu y mae cyflogwyr yn dweud wrthym y maent ei eisiau a'i angen.

Rydym yn brifysgol amlddisgyblaethol gyda hanes cryf o safbwynt ein partneriaethau, ehangu mynediad, a llwyddiant myfyrwyr, gyda bron i hanner y myfyrwyr yn PDC yn dod o ardaloedd sydd o fewn dau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) – sy'n arwyddocaol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a'r DU.

Mae gennym dri champws yng Nghaerdydd, Casnewydd a Phontypridd ac mae gennym ddau is-gwmni o dan ein perchnogaeth yn llwyr, sef Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ac Y Coleg Merthyr Tudful.

5. Sut rydym yn monitro ein cynnydd

Er mwyn sicrhau bod agenda EDI PDC yn cael ei monitro'n effeithiol mae llinellau adrodd am lywodraethu wedi'u cryfhau yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae swydd Weithredol newydd wedi'i chreu gyda chyfrifoldeb uniongyrchol am EDI yn eu

portffolio, sef y Prif Swyddog Pobl a Chynhwysiant. Mae adroddiadau uniongyrchol gan Dîm EDI i Fwrdd Llywodraethwyr PDC wedi cael ei gyflwyno bob dwy flynedd, ynghyd ag adroddiadau chwarterol i'r Tîm Gweithredol.

Mae hyn yn cael ei ategu gan barhad Grŵp Llywio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (GLICA) y Brifysgol, sy'n cwrdd yn chwarterol ac sydd â chynrychiolaeth o bob adran, cyfadrn, undeb llafur, Undeb y Myfyrwyr, Y Coleg Merthyr Tudful a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Er mwyn sicrhau annibyniaeth, mae'r grŵp hwn yn parhau i gael ei gadeirio gan Ysgrifennydd y Brifysgol. Mae'r grŵp yn ystyried yr holl faterion cydraddoldeb a nodweddion gwarchodedig, yn goruchwyllo cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac yn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer agenda cydraddoldeb Grŵp PDC. Mae gan y GLICA gyfrifoldeb cyffredinol dros weithredu ac adolygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mae is-grwpiau cydraddoldeb yn parhau i gael eu hadolygu yn ystod y cyfnod adrodd hwn tra bod personél ac ailstwythuro wedi digwydd ar draws y sefydliad. Gydag eithriadau i'r is-grwpiau cydraddoldeb canlynol Is-grŵp Cydraddoldeb Hil, Crefydd a Chred a Gweithgor Hygyrchedd Digidol ill dau sy'n adrodd yn uniongyrchol i GLICA.

6. Adnabod, Casglu a Defnyddio Gwybodaeth Berthnasol

6.1 Y Camau a Gymerwyd i Nodi a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol

O dan ddyletswyddau statudol y Ddeddf Cydraddoldeb i Gymru, mae data ar gyfer monitro cydraddoldeb cydweithwyr a myfyrwyr yn cael ei ystyried yn 'wybodaeth berthnasol' i gefnogi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mae PDC yn monitro holl nodweddion gwarchodedig cydweithwyr drwy system Adnoddau Dynol a system recriwtio ar-lein. Gall ymgeiswyr fewnbynnu eu data cydraddoldeb yn gyfrinachol fel rhan o'r broses ymgeisio. Mae hyn yn galluogi Adnoddau Dynol i gynhyrchu adroddiadau blynyddol ar gyfradd llwyddiant ymgeiswyr drwy bob cam o'r broses recriwtio yn ddienw yn ôl nodweddion gwarchodedig. Mae'r system Adnoddau Dynol yn cynnwys opsiwn 'hunanwasanaeth' i gydweithwyr presennol ddarparu eu data cydraddoldeb eu hunain. Cyflwynir y data hwn yn Atodiad 1.

Mae cofrestru myfyrwyr yn digwydd ar ddechrau pob blwyddyn academiaidd drwy system ar-lein, sy'n cynnwys monitro cydraddoldeb ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig. Caiff y data hwn ei storio'n ddiogel a'i ddefnyddio'n ddienw i adrodd ar boblogaethau myfyrwyr o grwpiau cydraddoldeb, fel y'i cynhwysir yn Adroddiad Data Cydraddoldeb Myfyrwyr yn Atodiad 2.

Cyflwynir hyn a'r adroddiadau Gwybodaeth Cyflogaeth i'r GLICA, Tîm Gweithredol PDC a'r Pwyllgor Diwylliant Pobl a Gwerthoedd bob blwyddyn i'w dadansoddi a

chraffu arnynt. Fe'u defnyddir i asesu tueddiadau ac anghydbwysedd, ac i lywio datblygiad yr agenda cydraddoldeb.

6.2 Rhesymau dros Beidio â Chasglu Gwybodaeth Berthnasol

Mae'r Brifysgol yn casglu'r holl nodweddion gwarchodedig ar gyfer cydweithwyr a myfyrwyr, ac eithrio'r canlynol:

Beichiogrwydd a Mamolaeth

Nid yw gwybodaeth am feichiogrwydd/mamolaeth i fyfyrwyr yn cael ei chasglu wrth gofrestru. Fodd bynnag, mae PDC yn cefnogi myfyrwyr sy'n feichiog neu sydd wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar trwy ei chanllawiau i fyfyrwyr ar feichiogrwydd, mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu a thrwy'r Parthau Cyngor i Fyfyrwyr. Mae Adnoddau Dynol yn cadw gwybodaeth am feichiogrwydd/mamolaeth cydweithwyr at ddibenion gweinyddu absenoldeb mamolaeth a thadolaeth.

Priodas a Phartneriaeth Sifil

Ar hyn o bryd mae data ar statws priodasol a phartneriaeth sifil yn cael ei gasglu ar gyfer cydweithwyr, ond nid ar gyfer myfyrwyr. Gan nad yw priodas a phartneriaeth sifil yn nodwedd warchodedig ar gyfer y darpariaethau addysg uwch, nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gyflwyno monitro'r nodwedd hon ar gyfer myfyrwyr. Ar gyfer cydweithwyr a myfyrwyr, mae'r teitl niwtral o ran rhywedd 'Mx' ar gael i'w ddefnyddio yn y ddwy system.

6.3 Datganiad ar Effeithiolrwydd Trefniadau ar gyfer Adnabod a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol

Gwneir ymdrechion sylweddol i nodi, casglu, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth berthnasol. Mae'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer hyn yn effeithiol, gyda ffyrdd newydd o ddefnyddio gwybodaeth berthnasol yn cael eu datblygu, eu hadolygu a'u diwygio'n rheolaidd.

Mae'r strwythurau llywodraethu cydraddoldeb cadarn sydd ar waith yn y Brifysgol yn sicrhau bod ffocws manwl ar archwilio'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer blaenoriaethau cydraddoldeb a chynhwysiant a dadansoddiad o effaith y camau a wnaed, yn ogystal â deall a gweithredu canllawiau arferion da ac ymchwil.

7. Adroddiad Cynnydd Cydraddoldeb Strategol 2022-2023

Fel yr amlygwyd yn adran 1 yn dilyn adolygiad ac ystyriaeth o ran ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol presennol fel rhan o Archwiliad Cydraddoldeb Strategol ym mis Ebrill 2022, cydnabuwyd bod angen symud o ddiwylliant cydymffurfiaeth i un sy'n ymgorffori Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant yng ngwead y Brifysgol.

Felly, mae'r isod yn tynnu sylw at daith EDI'r Brifysgol yn ystod y cyfnod adrodd hwn a chychwyn datblygiad Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd.

7.1 Amlygrwydd allanol a mewnol

Yng ngwanwyn 2022 aeth tudalen we Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant allanol PDC yn fyw [Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant | Prifysgol De Cymru](https://www.southwales.ac.uk/cymraeg/amdanom/cydraddoldeb-amrywiaeth-a-chynhwysiant/)¹. Gobeithiwn y bydd y presenoldeb allanol hwn yn galluogi'r brifysgol i arddangos ei hymrwymiad i EDI. Drwy roi cyfle i gydweithwyr a myfyrwyr gael cipolwg ar ehangder y gwaith EDI sy'n cael ei wneud.

Ers mynd yn fyw ar 3 Mawrth 2022, mae tudalen we [Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant | Prifysgol De Cymru](https://www.southwales.ac.uk/cymraeg/amdanom/cydraddoldeb-amrywiaeth-a-chynhwysiant/)² yn parhau i gael ei diweddarau. Gyda'r nifer fwyaf o ddiweddariadau yn cynnwys lansiad fideo Cynhwysiant newydd PDC gan yr Is-Ganghellor Ben Calvert ar 15 Rhagfyr 2022 ar ein Campws Dinas Casnewydd. Dylid nodi bod yr holl actorion a chriw cynhyrchu yn fyfyrwyr, graddedigion a/neu Entrepreneuriaid PDC.



Gobeithiwn y bydd y presenoldeb allanol hwn yn galluogi'r brifysgol i arddangos ei hymrwymiad i EDI.

Yn ystod tymor yr hydref, dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu ein gofod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ymroddedig ar Cyswllt (y fewnwyd). Gan ddarparu mynediad uniongyrchol a gweladwy i gydweithwyr o waith EDI sy'n digwydd ar draws y Brifysgol gan gynnwys:

- Tudalen adnoddau EDI
- Cydraddoldeb Hil
- Anabledd
- Gwefan LHDTIC+
- Athena Swan
- Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Cynlluniau Hyrwyddwyr Cynhwysiant

¹ <https://www.southwales.ac.uk/cymraeg/amdanom/cydraddoldeb-amrywiaeth-a-chynhwysiant/>

² <https://www.southwales.ac.uk/cymraeg/amdanom/cydraddoldeb-amrywiaeth-a-chynhwysiant/>

7.2 Hybu llais y myfyrwyr

Mae'r Tîm EDI wedi bod yn gweithio'n agos gyda'n cymuned o Fyfyrwyr Rhyngwladol, gan gefnogi datblygiad cyfres ddi'n Perthyn PDC fel rhan o'r orsaf radio i fyfyrwyr, Tequila. Dechreuwyd gyda digwyddiad lansio byw ar 23 Medi 2022 ar gampws Caerdydd. Gan weithio mewn partneriaeth â'r Gyfadran Busnes a Diwydiannau Creadigol, bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflymu yn 2023 fel rhan o waith Siarter Cydraddoldeb Hil, wedi'i ysgogi gan recriwtiad llwyddiannus Myfyriwr Graddedig Springboard, Dooake Sonrandein, i arwain y gwaith hwn.



Commented [RJ2]: Please insert photo of Welsh version of the cover if possible, diolch

Yn ogystal, gyda chydweithio rhwng y Tîm EDI, Urban Circle sy'n Sefydliad Ymgysylltu Celfyddydau Ieuentid yng Nghasnewydd, Pennaeth Busnes Byd-eang a Myfyrwyr MBA, cynhaliodd y Brifysgol ei dathliad Myfyrwyr Rhyngwladol diwedd blwyddyn cyntaf ar ein campws yn Ninas Casnewydd ar 15 Rhagfyr.



Mae gwaith partneriaeth pellach wedi'i wneud yn ystod y cyfnod adrodd hwn er mwyn meithrin ymddiriedaeth gyda grwpiau LHDTC+ cymunedol. Arweiniodd hyn at bresenoldeb corfforol yn Pride Cymru a Pride in the Port mewn cydweithrediad â Glitter Cymru (grŵp Mwyafrif Byd-eang LHDTC+) ac at ddarparu man cyfarfod ar ein campws yng Nghasnewydd ar gyfer Trans Aid Cymru. Wrth ochr hyn, fe wnaeth Prifysgol De Cymru ddarparu nawdd llawn i Wyl Ffilm a Chelfyddydau Lesbiaidd

Ryngwladol gyntaf Caerdydd, LezDiff, a ddatblygwyd ac a gynhaliwyd gan Gynfyfyrwyr PDC.



Mae cysylltiadau cryf wedi'u meithrin gyda Thîm Cyfathrebu PDC ochr yn ochr â chydweithwyr Digidol a Marchnata PDC ar draws PDC, i gynllunio a chyflwyno cynnwys ar gyfer dyddiadau a digwyddiadau cenedlaethol penodol. Am y rhestr lawn ar gyfer y cyfnod adrodd hwn, gweler Atodiad 3.

7.3 Taith ecwiti hil

Cofrestrodd PDC ar gyfer Siarter Cydraddoldeb Hil Advance HE ym mis Medi 2020 gyda gwaith yn cyflymu yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn dilyn gwanwyn 2022 lle cyhoeddodd CCAUC y byddai'n ariannu holl Brifysgolion Cymru i gyrraedd Nod Siarter Cydraddoldeb Hil Advance HE erbyn 2025.

Er mwyn sicrhau bod cynnydd wedi bod yn ystrolon ac wedi'i wreiddio, gan ddefnyddio cyllid CCAUC, penodwyd PDC Reolwr Prosiect Siarter Cydraddoldeb Hil llawnamser ac Uwch Gynorthwydd Ymchwil Siarter Cydraddoldeb Hil. Gydag ymrwymiad clir a gweithredol gan Dîm Gweithredol y Brifysgol i ddod yn sefydliad gwrth-hiliol. Wedi'i fframio o fewn [pwm](#) [egwyddor arweiniol sylfaenol](#) Siarter Cydraddoldeb Hil Advance HE, ac yn unol â [41912](#)

[Cymru Wrth-hiliol \(llyw.cymru\)](http://llyw.cymru). i fynd i'r afael ag annhegwch hil yn ei nifer o agweddau croestoriadol.

Fel rhan o gynllun gweithredu'r Brifysgol ac i osod sylfaen gadarn, comisiynodd PDC weithdai gwrth-hiliol wyneb yn wyneb a ddechreuodd ym mis Rhagfyr 2022 gan ddechrau gyda Thîm Gweithredol PDC. Pwrpas y gweithdai gwrth-hiliol hyn fu darparu mannau dewr a chynnig negeseuon cyson ar draws y sefydliad o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn sefydliad gwirioneddol Wrth-Hiliol. Yn ogystal â gweithdy Gwrth-hiliaeth, datblygwyd cyfres o sgysiau hanfodol:

- Braint pobl wyn; Pwysigrwydd iaith; Hil a Chroestoriadedd.

Er mwyn gwella a galluogi cydweithio a brandio taith ecwiti Hil PDC gwahoddwyd myfyrwyr ac entrepreneuriaid i gyflwyno ceisiadau dylunio ar gyfer logo Siarter Cydraddoldeb Hil PDC. Gyda'r logo isod yn cael ei ddewis gan banel o gydweithwyr



Siarter Cydraddoldeb Hiliol Race Equality Charter

Yn dilyn cyflwyniad llwyddiannus i raglen Graddedigion Springboard y Brifysgol ym mis Ionawr 2023 ymunodd Myfyriwr Graddedig Cydraddoldeb Hil Springboard â'r Tîm EDI am 6 mis. Nod cyffredinol y rôl hon oedd hybu llais y myfyrwyr a'r cydweithwyr ymhellach drwy nifer o brosiectau fel rhan o gyfres Cydraddoldeb Hil PDC, dwi'nPerthyn. Roedd hyn yn cynnwys:

- Datblygu ap radio a fydd yn cael ei reoli a'i arwain gan fyfyrwyr. Ar hyn o bryd mae myfyrwyr yn creu podlediadau fel rhan o ddatblygiad llyfrgell podlediadau sy'n barod i'w rhyddhau unwaith y bydd meddalwedd yr Ap Radio wedi'i gymeradwyo.
- Datblygu a chyflwyno Gŵyl Ddiwylliannol
- Datblygu fideo EDI sy'n tynnu sylw at brofiadau cynhwysol staff a myfyrwyr.

7.4 Cyrhaeddiad Gwahaniaethol – Bylchau Dyfarnu

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae gwaith yn y maes hwn wedi ymgymryd â phwrpas ystyrlon wrth greu a defnyddio setiau data clir a chynlluniau gweithredu. Blaenorir y gwaith hwn gan Ddirprwy Is-Ganghellor PDC, yr Athro Donna Whitehead, ac arweinir y gwaith gan Bwyllgor Dysgu, Addysgu a Gwella'r Brifysgol. Cyflwynwyd y gwaith hwn i'r Bwrdd Academiaidd, Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, GLICA, Pwyllgor Gweithredol, a'r Pwyllgor Diwylliant Pobl a Gwerthoedd drwy gydol y cyfnod adrodd hwn.

Fel rhan o Bwyllgor Dysgu, Addysgu a Gwella'r Brifysgol, sy'n Bwyllgor Prifysgol gyfan, mae camau gweithredu presennol wedi'u casglu at ei gilydd mewn un cynllun Gweithredu ar gyfer y Brifysgol. Mae'r cynllun gweithredu hwn a'r meysydd sy'n peri'r pryder mwyaf yn cael eu

hadolygu'n barhaus gyda grwpiau Gorchwyl gweithredol yn cael eu sefydlu yn ôl yr angen. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, sefydlwyd Tasglu Cadw Myfyrwyr gyda'r nod o ddeall a nodi patrymau a nodweddion y myfyrwyr hynny sy'n gadael eu hastudiaethau i helpu i greu ymyriadau gwybodus sydd wedi'u targedu.

7.5 Datblygu a gweithredu plattform tryloyw lle gellir adrodd am wahaniaethu, bwlio, aflonyddu a thrais sy'n seiliedig ar hunaniaeth

Mewn ymateb i adroddiadau mewnol ac allanol gan gynnwys Universities UK (UUK)², y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol³, Advance HE⁴ a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)⁵. Yng ngwanwyn 2022 dechreuodd y Brifysgol ar y gwaith o gyflwyno system adrodd dryloyw lle gellir adrodd am wahaniaethu, bwlio, aflonyddu a thrais sy'n seiliedig ar hunaniaeth. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â Nod 6 o strategaeth Lles ac Iechyd Prifysgolion 2021-2022 yn dilyn cyllid gwerth £343,975 a ddyrannwyd gan CCAUC ym mis Hydref 2021:

Nod 6 : Alinio polisiau a mentrau lles ac iechyd myfyrwyr a staff â gyrwyr mewnol eraill ar gyfer newid, i feithrin cymuned gynhwysol a chefnogol

Yn dilyn cwmpasu ac ymchwil cychwynnol, cydnabuwyd bod Sefydliadau Addysg Uwch ledled Lloegr yn fwyfwy datblygedig o ran mynediad gwladwy at systemau adrodd a chymorth i'w myfyrwyr, cydweithwyr a thrydydd partion, a'r cyfan wedi'u darparu gan [Culture Shift](#)⁶. Culture Shift yw'r darparwr sector a ffafir ar hyn o bryd, maent bellach yn darparu systemau Adrodd a Chymorth i 83 o Sefydliadau Addysg Uwch.

Yn dilyn cyfnod o rannu canfyddiadau gyda rhanddeiliaid allweddol a chyflwyno papur argymhellion i noddwyr y prosiect ym mis Ebrill 2022, gwnaed cynnydd sylweddol ym mis Mai 2022. Gyda chydweithrediad rhwng Tîm EDI, Gwasanaethau Myfyrwyr, Gwaith Achos Myfyrwyr, Adnoddau Dynol, TG, y tîm Caffael a Chyfreithiol, gwnaed camau sylweddol gyda'r cytundeb i dreialu ac ymgysylltu system Adrodd a Chymorth Culture Shift am gyfnod cychwynnol o dair blynedd. Clustnodwyd dyraniad cyllid o gronfeydd presennol CCAUC.

Cynhaliodd y Brifysgol lansiad meddal o'r plattform ar 16 Mawrth 2023 gyda'r nod o lansiad llawn yn ystod tymor cyntaf blwyddyn academiaidd newydd 23/24.

7.6 Newidiadau i arferion recriwtio i sicrhau amlygrwydd a thryloywder

Yn dilyn adolygiad a dadansoddiad o'n data cydraddoldeb blynyddol fel rhan o Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2020-21, roedd cydnabyddiaeth bod y data yn amlygu anghydraddoldebau posibl i ymgeiswyr o grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig a'r rhai o gefndiroedd LHDTG+. Er mwyn mynd i'r afael â chamau gweithredu o ran manau cul posibl ac argymhellion gan [Race in the workplace: The McGregor-Smith review](#)³, dechreuodd gwaith yng ngwanwyn 2023 i gyflwyno'r broses o greu rhestrau byrion dienw gyda'r nod o gwblhau hyn erbyn haf 2023.

7.7 Datblygiadau Digidol yn unol â WCAG 2.1

³https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/594336/race-in-workplace-mcgregor-smith-review.pdf

Mae gwaith yn y maes hwn yn cael ei yrru gan Weithgor Hygyrchedd Digidol PDC (DWAG), is-grŵp cydraddoldeb gweithredol dan gadeiryddiaeth Ysgrifennydd y Brifysgol sydd â chyfrifoldeb i Grŵp Llywio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Brifysgol.

Ym mis Gorffennaf 2022, cwblhaodd Canolfan Datblygu Dysgu ac Addysgu PDC (CELTI) Ddatganiad Hygyrchedd Blackboard. Cafodd Supernova, meddalwedd cymorth darllen ar gyfer myfyrwyr a chydweithwyr ag amhariad ar eu golwg, ei ailosod gan TG a'r Gwasanaethau Dysgu, gan ei gwneud yn system gwbl hygyrch sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth.

Er mwyn cynorthwyo cydweithwyr i sicrhau fod pob dogfen yn hygyrch, dogfennau PDF yn benodol, dosbarthwyd cyngor i ddefnyddwyr mewn perthynas â gosod yr iaith ddiofyn gan ddefnyddio'r cofnod /Lang yn y catalog dogfen o fewn dogfen PDF. Er mwyn cynorthwyo cydweithwyr ymhellach i sicrhau bod unrhyw ddeunydd dysgu a hyfforddiant yn cael eu datblygu gyda hygyrchedd wrth ei wraidd, trefnwyd a darparwyd hyfforddiant drwy AbilityNet.

Er mwyn cryfhau a gwreiddio'r gwaith hwn, mae DWAG wedi creu polisi Hygyrchedd Digidol ar draws y Brifysgol yn ystod tymor yr hydref a gyhoeddwyd yng ngwanwyn 2023. Yn dilyn cyfnod o ymgynghori a chymeradwyaeth drwy GLICA. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at PDC yn derbyn safle ar Fyngai Hygyrchedd Silkide.

7.8 Prifysgol Noddfa

Mae llawer iawn o waith yn parhau i gael ei wneud yn y maes hwn, gyda gwaith yn cael ei arwain gan Dr Mike Chick. Mae'r diweddariad isod yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed yn ystod y cyfnod adrodd hwn:

- Graddiodd dau o'n Hysgolheigion Noddfa gyda rhagoriaeth mewn dyfarniadau Ôl-raddedig yn haf 2022. Fe wnaeth y ddau ysgolhaig hefyd ennill gwobrau Cenedlaethol gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith am "ddysgwr" y flwyddyn - a gynhaliwyd yn Sain Ffagan yn gynharach eleni.
- Mae PDC yn parhau i ariannu cyrsiau iaith Cyn-sesiynol ar gyfer ffoaduriaid a phobl sy'n chwilio am loches. Roedd dros ddwsin o fyfyrwyr naill ai wedi sefyll prawf iaith am ddim a/neu wedi mynychu cwrs llawn amser dwys gan ddileu'r rhwystr hwn a rhoi mynediad iddynt i astudiaeth AU.
- Mae PDC wedi bod yn darparu dosbarthiadau addysg Saesneg am ddim i ffoaduriaid o Wcráin sydd wedi'u hadsefydlu yn RhCT. Mae'r rhain wedi bod yn rhedeg ers mis Mehefin 2022 ar ein Campws Trefforest ac mae disgwyl iddynt barhau tan 2023.
- Lansiodd Noddfa PDC grŵp Student Action for Refugees (STAR) ym mis Hydref 2022. Mae'r grŵp o fyfyrwyr BA Saesneg a Dysgu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (TESOL) yn cynnal dosbarth sgwrsio ac ymweliadau cymdeithasol wythnosol ar gyfer ffoaduriaid wedi'u hadsefydlu yn RhCT ac maent hefyd yn bwriadu cynnal cyfres o ddigwyddiadau addysgol i addysgu staff a myfyrwyr am faterion ffoaduriaid.

- Mae PDC yn ystyried noddi Cymrawd CARA (cyngor academyddion mewn perygl) - academydd o Affganistan sydd bellach yn chwilio am noddfa yn y DU.
- Ar hyn o bryd mae PDC yn hysbysebu ar gyfer swydd Cydlynnydd Ffoaduriaid wrth i'r argyfyngau dyngarol parhaus o amgylch Affganistan, Syria, Wcráin a Hong Kong olygu bod prifysgolion yn parhau i chwarae rhan allweddol mewn adefyrdiad ac integreiddiad pobl sydd wedi'u dadleoli yng Nghymru.

7.9 EDI yn Taflu Goleuni ar Gyfadran – Cyfadran Busnes a Diwydiannau Creadigol

Fel rhan o'n hadolygiad ac adlewyrchiad o'n gwaith EDI gan gynnwys y cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol, gwnaethom gynnal Archwiliad EDI ym mis Ebrill 2022 lle cydnabwyd nad oes cynlluniau gweithredu cydraddoldeb Cyfadranol ar waith ar hyn o bryd. Felly, fel rhan o'r adroddiad Cynnydd Cydraddoldeb Blynnyddol hwn, rydym wedi cynnwys cipolwg ar arferion da yn ein Cyfadran Busnes a Diwydiannau Creadigol (FBCI) rhwng mis Mehefin 2022 a mis Rhagfyr 2022 i nodi ehangder y gwaith sy'n digwydd. O fewn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 – 2028 bydd disgwyl i bob Cyfadran gael camau clir sy'n helpu'r Brifysgol i gyflawni ei Hamcanion Cydraddoldeb Strategol.

Ym mis Mehefin 2022 bu 20 o fyfyrwyr Du a Lleiafrifoedd Ethnig o'n cyrsiau MA Ffilm, Dylunio Set a chysiau FBCI eraill yn gweithio ar gyfres [deledu Black Cake](#)⁴ yn Great Point Seren Studios yng Ngwynllŵg. Fe wnaeth hyn ddarparu profiad gwaith clir i'n myfyrwyr Du a Lleiafrifoedd ethnig sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd yn PDC. Mae hwn yn gyd-gynhyrchiad rhyngwladol gwerth sawl miliwn o bunnoedd, wedi'i leoli yn Jamaica, Llundain ac UDA gyda chast Du a Lleiafrifoedd Ethnig yn bennaf. Mae'n cael ei wneud gan gwmni cynhyrchu Oprah Winfrey (Harpo) ac mae disgwyl iddo gyrraedd sgriniau haf/hydref nesaf.

Mehefin 2022

- Cymerodd myfyrwyr MBA Byd-eang ran mewn diwrnod datblygu sgiliau 'Arweinwyr y Dyfodol' a ddarparwyd gan dîm Gyrfaoedd PDC ar do Campws Dinas Casnewydd yr wythnos hon. Cwblhaodd y myfyrwyr ystod o weithgareddau a gynlluniwyd i hyrwyddo datblygiad sgiliau negodi, cyfathrebu a chyfweld i'w helpu i ddatblygu sgiliau busnes allweddol, paratoi i sicrhau lleoliadau gwaith a swyddi graddedigion.
- Croesawodd yr Is-grŵp Ehangu Cyfranogiad grŵp o bobl ifanc greadigol a gwneuthurwyr cynnwys o [Urban Circle Casnewydd](#) i'r campws ar 8 Mehefin ar gyfer diwrnod ymweld ag AU. Cafodd y bobl ifanc angerddol hyn brofiad ymarferol a mewnwelediad i'n darpariaeth Ffilm ac Effeithiau Gweledol (VFX).
- Cyflwynodd Dr Helen Davies ei phapur ar *Gynhwysedd yn y Metafyd* yng nghynhadledd fawreddog AWE, Santa Clara, California.

⁴ <https://www.imdb.com/title/tt15475330/>

- Cadeiriodd Tom Ware banel noddur gan PDC. Roedd y panel o westeion o'r diwydiant ffilm a theledu, a thrafodon nhw'r heriau o ran dod o hyd i dalent newydd ac amrywiol fel rhan o Gopa Cyfryngau Cymru.
- Bydd y Pennaeth Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr, Huw Swayne, yn cyflwyno yn nigwyddiad WonkHE "Gweithredu ar gyfer ymberthyn a chynhwysiant" gan arddangos arferion gorau yn y Gyfadran mewn Dylunio Cwrs, Cynefino a Chymorth i Fyfyrwyr
- Cyflwynodd yr Athro Florence AYISI ffilm ddogfen ar brofiadau teuluoedd a chymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig yn ystod y pandemig. Naz Shah, AS oedd yn cynnal y digwyddiad, ac roedd y drafodaeth a ddilynodd yn canolbwyntio ar sut y gall llunwyr polisi a seneddwrwyr gydweithio i wella gwytnwch cymunedau Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig.
- Mae Ymchwil@4 yn cynnal cyfres o drafodaethau byw yn rhannu ein hymchwyl sy'n arwain y byd ac sy'n cael ei chydabod am ei rhagoriaeth yn rhyngwladol, gan ddechrau gyda 'Menywod mewn Ymchwyl' ar 20 Mehefin yn yr Atriwm. Bydd Menywod mewn Ymchwyl yn edrych ar sut mae menywod yn creu effaith mewn gwahanol feysydd ymchwyl, ac yn cynnwys y siaradwyr Dr Sarah Crews, Dr Rachel Lock-Lewis, a Dr Lauren Josie Thomas
- Wythnos Ffoaduriaid gyda sgwrs gan Eric Ngalle Charles ar ei gasgliad newydd o farddoniaeth, dangosiad o ffilm animeiddio gan un o fyfyrwyr Cynllun Noddfa PDC, a ffilm am y prosiect *Siarad â Fi*. I'w gynnal yn Nhrefforest ar yr 20fed o Fehefin,
- Y Gyfadran/PDC yw prif noddwr gŵyl iaith a diwylliant Cymru, Tafwyl, a gynhelir yng Nghastell Caerdydd ar 18-19 Mehefin. Mae'r ŵyl yn rhad ac am ddim i bawb. Rydym hefyd yn cynnal llawer o'r gweithgareddau ymylol yn ystod yr wythnos sy'n arwain at benwythnos yr ŵyl, ac mae nifer ohonynt yn digwydd yn yr Atriwm. Mae'r ddolen hon yn mynd â chi i'r rhaglen ymylol (sgroliwch i lawr ar gyfer digwyddiadau Ffasiwn, Perfformiadau, Animeiddio, a Dylunio yn yr Atriwm)
- Fel rhan o fis Pride, mae'r myfyriwr graddedig ac aelod o staff, Dave Sinclair, yn trafod helpu i ddechrau'r Cardiff Foxes – clwb rhedeg LHDTC+ cyntaf De Cymru

Gorffennaf 2022

- Derbyniodd Dr Llŷr Roberts y Wobr Adnodd Cyfrwng Cymraeg Ardderchog am yr e-lyfr *Cyflwyniad i Farchnata* yn noson wobrwyo flynyddol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
- Cynhaliodd y Tîm Recriwtio Myfyrwyr ddiwrnod blasu *Ehangu Cyfranogiad* cyfrwng Cymraeg ar y campws ar gyfer ysgolion lleol. Ariannwyd y digwyddiad gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac roedd yn arddangos darpariaeth Gymraeg ar Lefel AU. Roedd meysydd pwnc FBCI yn cynnwys - Cynhyrchu Cyfryngol, Dylunio, Busnes, y Gyfraith a Pherfformio.
- Yr Athro Florence Ayisi, gyda'i chydweithwyr Dr Wendy Booth ac Emyr Jenkins. Mae'r ymchwyl yn trafod grymuso teuluoedd a chymunedau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol drwy gynrychiolaeth gadarnhaol, gyda ffocws penodol ar greu ffilmiau dogfen.

Hydref 2022

- Fel rhan o raglen Mis Hanes Pobl Ddu PDC, ymunodd yr artist a'r dawnsiwr Mary-Anne Roberts-O'Reilly, yr Athro Chris Evans, Tim Galsworthy, a Dr Adeola Dewis i drafod pynciau hil a chof fel panel yn sgwrs Ymchwil@4 ddiweddaraf, *Sut mae Bywydau Du Wedi bod o Bwys* ddydd Mercher (26ain). Edrychodd y grŵp ar sut mae'r mudiad Mae Bywydau Du o Bwys wedi cael sylw byd-eang yn ystod y 10 mlynedd diwethaf a sut mae wedi bod yn adeiladu ers degawdau.
- Bydd naw artist o wahanol daleithiau yn Tsieina, sy'n athrawon prifysgol ac hefyd yn artistiaid annibynnol, yn cynnal arddangosfa ffotograffiaeth yn Stiwdios Stryd y Coleg. Mae [Taith i'r Lleuad a'r Haul](#) yn brosiect a gychwynnwyd gan yr ysgolhaig Zhang Qiuwen o dan arweiniad yr Athro Mark Durden a Peter Finnemore. Bydd yr arddangosfa yn rhedeg o ddydd Gwener yr wythnos hon (28ain) tan Dachwedd 12.
- Bydd Sharon Kostini, myfyriwr MA Ymarfer Celfyddydau (Celfyddydau, Iechyd a Lles) yn lansio *'Blas ar Affrica'* ddydd Gwener 28 Hydref am 5pm. *'Blas ar Affrica'* – penwythnos o ddigwyddiadau diwylliannol a chelfyddydol yn Heol y Frenhines, Canolfan Capitol, mynedfa llawr gwaelod uned 3. Yn dathlu diwedd Mis Hanes Pobl Ddu, mae'r digwyddiad yn rhoi blas i ymwelwyr ar gerddoriaeth, ffasiwn a chelfyddydau Affrica.
- Gwahoddwyd Dr Thania Acarón i Ysgol Chadwick yn Los Angeles i siarad am Ddrama a Pherfformio yn PDC. Cynhaliodd Thania weithdai ar hunaniaeth a pherfformio ar gyfer Diwrnod Dod Allan Cenedlaethol a datblygodd ei gwaith theatr gorfforol LHDTTC+, Mixology, gyda'r cwmniawns.
- Aeth myfyrwr MBA Byd-eang i ddarlith gwadd arbennig o'r enw *'Amlochrogiaeth a Bygythiadau i Gyfundrefn Ryngwladol sy'n Seiliedig ar Reolau'* a gyflwynwyd gan Syr Emyr Jones Parry, cyn-gynrychiolydd y DU ar Gyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig.
- Mae'r ffotonewyddiadurwr, Nelly Ating, yn cychwyn ein rhaglen Darlithoedd Gwadd eleni. Mae Nelly Ating yn ffotograffydd sy'n canolbwyntio ar gwestiynau ynghylch hunaniaeth, addysg, eithafiaeth a mudo. Mae ei gwaith ffotograffig, a ddogfennodd gynnydd terfysgaeth Boko Haram rhwng 2014 a 2020 yng Ngogledd-ddwyrain Nigeria, yn taflu goleuni ar groestoriadau radicaleiddio a chanlyniadau gwrthdaro.
- Mae Dr Laura Stephenson wedi cyrraedd rhestr fer ar gyfer Gwobr Times Higher Education fawreddog. Cyfeirir at y Gwobrau THE yn aml fel "Oscars" cydnabyddiaeth addysg uwch yn y DU ac Iwerddon. Mae hi wedi cael ei henwebu ar gyfer 'Darlithydd Mwyaf Arloesol' am ei gwaith ar y modiwl Rhywedd a Chynhyrchu Cyfryngol sy'n torri tir newydd trwy ddod â theori gyfryngol ac ymarfer yn y gweithle ynghyd. Cynhelir y seremoni wobrwyo yn Llundain ar 17 Tachwedd, lle mae Laura yn cystadlu yn erbyn saith ymgeisydd arall sydd yn cynnwys Uwch Ddarlithwyr, Athrawon Cyswllt ac Athrawon o bob cwr o'r DU ac Iwerddon.
- Cafodd ffilm nodwedd iaith Bengaleg o'r enw ['Going Home'](#), a chrëwyd gan fyfyrwr MA Ffilm Mashroor Parvez, ei rhyddhau mewn sinemâu ledled y DU, gan gynnwys Arena O2. Dyna'r tro cyntaf i ffilm Bengali gael ei dangos yn yr O2, mae'r ffilm yn adrodd hanes dyn sy'n gweithio i fenter droseddol, ac mae hyn yn effeithio ar ei berthnasoedd bob dydd.
- Mae PDC Caerdydd yn cynnal Gŵyl Gwobr Iris, prif ŵyl ffilmiau LHDTTC+ y byd, gyda dangosiadau a sgwrsiau gan wneuthurwyr ffilm ledled y byd yn cael eu cynnal ledled Caerdydd. Eleni, bydd panel o fyfyrwyr FBCI yn dewis

enillydd cyffredinol Iris - y tro cyntaf i reithgor o fyfyrwyr gael yr anrhydedd o ddyfarnu gwobr mor fawreddog.

Tachwedd 2022

- [Mae'r Athro Florence Ayisi](#) wedi derbyn cydnabyddiaeth yng Ngŵyl Ffilm Affricanaidd Silicon Valley yng Nghaliffornia, am ei chyflawniad eithriadol mewn ffilm. Cyflwynwyd Gwobr Cyflawniad Arbennig i'r gwneuthurwr ffilmiau dogfen arobryn yn yr ŵyl, lle cafodd ei ffilm ddiweddar, The Bronze Men of Cameroon, ei dangos.
- Mynychodd myfyrwyr MBA Byd-eang ddarlith arbennig gan yr Athro Nick Rick, arbenigwr byd-eang mewn meddwl main a sefydliadau perfformiad uchel. Yn ystod y ddarlith rhannodd yr Athro Rick ei wybodaeth gref ar sut mae Toyota a chwmnïau byd-eang eraill yn elwa o gymhwyso cynhyrchu main.
- Devon Palmer, myfyriwr Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol yn y drydedd flwyddyn sy'n rhedeg y grŵp Student Action for Refugees (STAR). Cynhaliwyd y digwyddiad "Clwb Sgwrsio" cyntaf yn y Tŷ Cwrdd ddydd Mawrth 15fed a mynychodd fyfyrwyr, staff a ffoaduriaid Wcráin ar Gampws Trefforest. Roedd y digwyddiad yn brofiad gwych i bawb a gymerodd ran a bydd yn cael ei gynnal yn wythnosol o 1-2pm yn y Tŷ Cwrdd ar ddyddiau Mawrth.

Rhagfyr 2022

- Ymchwil @ 4 – BYW 7 Rhagfyr : Deall a chefnogi ffoaduriaid a'r rhai sy'n ceisio lloches. Sut allwn ni gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ein cymunedau ac mewn maes ehangach? Yr Athro Palash Kamruzzaman, Barrie Llewelyn, a Dr Mike Chick sy'n trafod eu gwaith ar ddeall a chefnogi ffoaduriaid a'r rhai sy'n ceisio lloches. Bydd ffilm Ida Mirzaee, "Final Step" hefyd yn cael ei dangos.
- Mae Sumaya Khan, myfyriwr Busnes a Rheoli blwyddyn 3 wedi cymryd rhan yn ddiweddar yn y rhaglen interniaethau eqUIP fel rhan o fenter datblygiad byd-eang Ffederasiwn Chwaraeon y Gymanwlad. Mae Sumaya wedi dychwelyd o Fotswana yn ddiweddar lle bu'n gweithio gyda Chymdeithasau Gemau'r Gymanwlad fel intern eqUIP

7.10 Cylch Cynllunio Cydraddoldeb Strategol newydd 2024 – 2028

Ym mis Ionawr 2023 cychwynnodd PDC gam un o'n cylch Cynllunio Cydraddoldeb Strategol newydd, yn barod i'w gyhoeddi ar 1 Ebrill 2024.

Er mwyn sicrhau ein bod yn symud o gydymffurfiaeth i ymgorffori EDI yn ein systemau, prosesau, gweithdrefnau a diwylliant ar draws y Brifysgol, rydym yn defnyddio dull Tegwch o'r Cychwyn. Sy'n golygu bod cam un yn canolbwyntio ar adolygu, dadansoddi a chymharu ein data EDI i dynnu sylw at feysydd pryder. Gyda datblygiad wedi'i ffurfio gydag ystyriaethau ac asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.

Mewn perthynas â meysydd sy'n peri pryder a chamau gweithredu arfaethedig, rydym yn cynnig ymgymryd â'r ymgysylltiad a'r ymgynghoriad canlynol yng Ngham dau datblygiad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol:

- Gweithdy gyda'r Tîm Gweithredol
- Gweithdy gyda'r Uwch Dîm Arwain
- Gweithdy gyda'r Pwyllgor Diwylliant, Pobl a Gwerthoedd
- Gweithdy gydag Undeb y Myfyrwyr
- Gweithdy gydag Undeb Llafur
- 6 digwyddiad ymgysylltu sy'n agored i fyfyrwyr, cydweithwyr; partneriaid ac aelodau'r gymuned
- Darparu arolwg ar-lein

Mae'n werth nodi bod PDC wedi comisiynu partner Trydydd Sector, Diverse Cymru, i gynnal digwyddiadau ymgysylltu ac arolygon ar-lein.

8. **Casgliad**

Commented [R3]: Please send missing text when ready and I'll amend. Diolch

Atodiad 1

Ymgyrchoedd / Digwyddiadau

Sefydlwyd grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer [Mis Hanes Pobl Ddu](#) 2022. Drwy gydol y mis, gwnaethom hyrwyddo cyfres o ddigwyddiadau a straeon personol, gan eu hychwanegu at dudalen Mis Hanes Pobl Ddu ein gwefan allanol. Gwnaethom hefyd rannu cyfres o fideos a gynhyrchwyd gan y Stiwdio Sefydlu, gan dynnu sylw at waith entrepreneuriaid graddedig Du. Rhannwyd y cynnwys hwn ar sianeli cyfryngau cymdeithasol PDC hefyd.

Rydym wrthi'n cynllunio cynnwys ar gyfer [Mis Hanes LHDT+](#) (Chwefror) a [Diwrnod Rhyngwladol y Menywod](#) (8 Mawrth).

Cynhaliwyd digwyddiad panel Materion Yfory, gyda ffocws ar amrywiaeth a chynhwysiant mewn chwaraeon, gyda Chyfadrannau y Gwyddorau Bywyd ac Addysg ddydd Iau 19 Mai 2022: [Materion Yfory: digwyddiadau blaenorol | Prifysgol De Cymru](#)

Straeon allanol (20 Rhagfyr 2022 - 26 Ebrill 2022)

Enghreifftiau o straeon / erthyglau sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb:

- 20 Rhagfyr 2022: [Myfyrwyr PDC yn dathlu sioe hynod lwyddiannus gyda Theatr Hijinx | Prifysgol De Cymru](#)
- 12 Rhagfyr 2022: [Myfyrwyr Bydwreigiaeth PDC yn codi arian ar gyfer teuluoedd mewn angen | Prifysgol De Cymru](#)
- Rhagfyr 2022: [Myfyrwr yn elwa o ddefnyddio mownt camera cadair olwyn pwrpasol | Prifysgol De Cymru](#)
- 1 Rhagfyr 2022: [Ffilm yn amlygu mynediad i addysg i bobl ifanc ddigartref | Prifysgol De Cymru](#)
- 18 Tachwedd 2022: [Wythnos Ymwybyddiaeth Traws | Ymchwil PDC yn dangos y gallai gwasanaethau sy'n deall materion LHDT+ leihau niwed yn gysylltiedig â sylweddau | Prifysgol De Cymru](#)
- 28 Hydref 2022: [Wythnos Genedlaethol Rhai sy'n Gadael Gofal | Cyfweiliad gyda Jayne Tanti, Cydlynnydd Rhai sy'n Gadael Gofal yng Ngharchar Ei Fawrhydi y Parc | Prifysgol De Cymru](#)
- 18 Hydref 2022: [Mis Ymwybyddiaeth Trais Domestig 2022 | Mae rhwydwaith ymchwil PDC yn dweud y gall sefydliadau gymryd camau pellach i gefnogi goroeswyr cam-drin domestig | Prifysgol De Cymru](#)
- 17 Hydref 2022: [FareShare Cymru yn elwa ar ffilm hyrwyddo gan fyfyrwyr PDC | Prifysgol De Cymru](#)
- 28 Medi 2022: [Kathryn yn cyrraedd rownd derfynol gwobr genedlaethol, ac am fod yn fodel rôl i fenywod yn y sector eiddo | Prifysgol De Cymru](#)
- 21 Medi 2022: [Cynllun bwrsariaeth Heddlu De Cymru i fyfyrwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol | Prifysgol De Cymru](#)
- 1 Medi 2022: [Helpu i wneud theatr yn fwy cynhwysol i bobl ifanc ddall a rhannol ddall | Prifysgol De Cymru](#)
- 22 Gorffennaf 2022: [Hanesion Graddio | Callum yn rhagori ar ei ddisgwyliadau academaidd ei hun | Prifysgol De Cymru](#)

Commented [RJ4]: International Women's day link doesn't seem to work for me, sorry - would be grateful if you could please insert the Welsh link. Diolch

- 20 Gorffennaf 2022: [Hanesion Graddio | Diagnosis dyslecsia yn helpu Luke i ennill anrhydedd dosbarth cyntaf | Prifysgol De Cymru](#)
- 19 Gorffennaf 2022: [Hanesion Graddio | Leanne yn defnyddio profiad o ddigartrefedd i ysgogi llwyddiant gradd | Prifysgol De Cymru](#)
- 18 Gorffennaf 2022: [Hanesion Graddio | Curtis yn manteisio ar gyfle ac yn gweddnwied ei fywyd | Prifysgol De Cymru](#)
- 1 Gorffennaf 2022: [Canmol ffilmiau dylanwadol gan ymchwilwyr PDC yn nigwyddiad San Steffan | Prifysgol De Cymru](#)
- 29 Mehefin 2022: [Mis Balchder | Pam mae gweithio gyda phobl ifanc LHDT+ yn bwysiq i mi | Prifysgol De Cymru](#)
- 28 Mehefin 2022: [Mis Balchder | Myfyriwr ffotograffiaeth yn rhannu storïau am bobl cwiwr o liw | Prifysgol De Cymru](#)
- 22 Mehefin 2022: [Mis Balchder | Archwilio hunaniaethau hybrid trwy theatr gorfforol | Prifysgol De Cymru](#)
- 20 Mehefin 2022: [Wythnos Ffoaduriaid 2022 | Cymorth i academyddion sydd wedi'u dadleoli a ffoaduriaid o Wcráin | Prifysgol De Cymru](#)
- 14 Mehefin 2022: [Wythnos Ffoaduriaid 2022 | Dathliad o farddoniaeth, animeiddio a phrosiectau yn PDC | Prifysgol De Cymru](#)

Straeon mewnol (20 Rhagfyr 2022 - 26 Ebrill 2022)

- 19 Rhagfyr 2022: [Lansio fideo cynhwysiant newydd PDC \(CY\) \(sharepoint.com\)](#)
- 7 Rhagfyr 2022: [Hyrwyddo ein Gwasanaethau Cwnsela \(CY\) \(sharepoint.com\)](#)
- 6 Rhagfyr 2022: [Cwrs dechreuwr Cymraeg newydd gan Dysgu Cymraeg Morgannwg - Ionawr 2023 \(CY\) \(sharepoint.com\)](#)
- 2 Rhagfyr 2022: [Dathliad Diwrnod Ada Lovelace \(CY\) \(sharepoint.com\)](#)
- 14 Tachwedd 2022: [Creu adnoddau dad-drefedigaethu: Ceisiadau am gyllid bellach ar agor \(CY\) \(sharepoint.com\)](#)
- 9 Tachwedd 2022: [Gŵyl Bêl-droed i nodi Cwpan y Byd Pêl-droed Dynion \(CY\) \(sharepoint.com\)](#)
- Tachwedd 2022: [Cyrsiau Cymraeg ar-lein ar gael i gydweithwyr gyda Dysgu Cymraeg Morgannwg \(CY\) \(sharepoint.com\)](#)
- 26 Hydref 2022: [Teulu PDC | Sylw ar ... cefnogi'r rhai sy'n gadael qofal \(CY\) \(sharepoint.com\)](#)
- 19 Hydref 2022: [Diwrnod Rhyngwladol Rhagenwau 2022 \(CY\) \(sharepoint.com\)](#)
- 17 Hydref 2022: [Diwrnod Ymwybyddiaeth Menopos \(CY\) \(sharepoint.com\)](#)
- 12 Hydref 2022: [Teulu PDC | Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd: Eliza-Bethany Simmonds-Trigwell a Jamie Evans \(CY\) \(sharepoint.com\)](#)
- 7 Hydref 2022: [Diwrnod Shwmae \(CY\) \(sharepoint.com\)](#)
- 7 Hydref 2022: [Cyfle i staff ennill y Dystysgrif Sgiliau Iaith AM DDIM \(CY\) \(sharepoint.com\)](#)
- Hydref 2022: [Cyflwyniad i Rwydwaith Gweithwyr Proffesiynol Du mewn STEM ym Mhrydain \(BBSTEM\) \(CY\) \(sharepoint.com\)](#)
- 30 Medi 2022: [Galwad ariannu CELT ar gyfer creu adnoddau dad-drefedigaethu \(CY\) \(sharepoint.com\)](#)

- 20 Gorffennaf 2022: [Hyfforddiant Safonau'r Gymraeg \(CY\) \(sharepoint.com\)](#)
- 13 Gorffennaf 2022: [Mae PDC yn croesawu ffoaduriaid o Wcráin gyda llety a chymorth \(CY\) \(sharepoint.com\)](#)
- 21 Mehefin 2022: [Teulu PDC | Wythnos Ffoaduriaid 2022 \(CY\) \(sharepoint.com\)](#)
- 24 Mai 2022: [PDC yn noddi Tafwyl 2022 \(CY\) \(sharepoint.com\)](#)
- 19 Mai 2022: [Cwrs Safonau'r Gymraeg i gydweithwyr \(CY\) \(sharepoint.com\)](#)
- Mai 2022: [Y Gaplaniaeth yn dathlu Eid gyda chymuned Fwslimaidd PDC \(CY\) \(sharepoint.com\)](#)
- Mai 2022: [IDAHOBIT – 17 Mai: Digwyddiad ar-lein Seicotherapi Symud Dawns \(CY\) \(sharepoint.com\)](#)